

ADRAN 5 - GWYBODAETH GYFFREDINOL

Atodiad 16 - MANYLION CYSWLLT AR GYFER DEILIAID SWYDDI ALLWEDDOL

AR GYFER DIOGELU

SWYDD DAN SYLW	ENW	TEITL Y SWYDD	E-BOST	RHIF CYSWLLT
Swyddog Diogelu Arweiniol	Yr Athro Tim Woods	Dirprwy Is-Ganghellor, Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr	tww@aber.ac.uk	01970 622009
Swyddog Adrodd Dynodedig	Caryl Davies	Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr a Gyrfaoedd	ccd@aber.ac.uk	01970 621761
Prif Swyddog Diogelu - Staff	Nick Rogers	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	nir24@aber.ac.uk	01970 622053
Prif Swyddog Diogelu - Myfyrrwyr	Emma Williams	Cofrestrydd Academaidd	elw40@aber.ac.uk	01970 622013
Swyddogion Diogelu Ymchwil Adrannol				
Swyddogion Diogelu Adrannol	Amanda Trubshaw	Rheolwr Dysgu Creadigol yng Nghanolfan y Celfyddydau	amj@aber.ac.uk	01970 621609
	Rachael Davey	Cyfarwyddwr y Ganolfan Saesneg Ryngwladol	rad27@aber.ac.uk	01970 621985
	Sarah McKenna	Cydlynnydd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol	srm@aber.ac.uk	01970 622548
	Gwag	Rheolwr Gweinyddol y Gofrestrfa		

AR GYFER GWASANAETHAU DATGELU A GWAHARDD

DEILIAID SWYDD	ENW	TEITL Y SWYDD	E-BOST	RHIF CYSWLLT
----------------	-----	---------------	--------	--------------

Llofnodwr Arweiniol	Heather Hinkin	Dirprwy Gyfarwyddwr AD	heh@aber.ac.uk	01970 622484
Ail Lofnodwr	Emma Williams	Cofrestrydd Academaidd	elw40@aber.ac.uk	01970 622013
Ail Lofnodwr	Alison Mackiewicz	Darlithydd Seicoleg	alm53@aber.ac.uk	01970 621919
Ail Lofnodwr	Carolyn Gittins	Rheolwr y Gofrestrfa Academaidd	cjj@aber.ac.uk	01970 621678

Atodiad 17 - Diogelu Data

14.1 DBS - Y Wybodaeth a geir mewn Datgeliadau

14.1.1 Trin

Yn unol ag adran 124 Deddf yr Heddlu 1997, dim ond i'r rheini sydd â'r hawl i'w gweld yn sgil eu dyletswyddau y bydd y wybodaeth a geir mewn datgeliadau yn cael ei throsglwyddo. Mae hyn yn cynnwys y Llofnodwr Arweiniol a'r Adran Adnoddau Dynol neu'r Tîm Derbyn Myfyrwyr fel y bo'n briodol.

14.1.2 Defnydd

Dim ond ar gyfer y diben penodol y gwnaed cais amdani ar ei gyfer, ac y cafwyd cydsyniad llawn yr ymgeisydd ar ei gyfer, y bydd y wybodaeth a geir mewn datgeliad yn cael ei defnyddio. Yn ogystal, ni fydd manylion datgeliad DBS yn cael eu cadw ar ffeil aelod o staff nac yng nghofnod unrhyw fyfyrwr, a byddant wastad yn cael eu cadw ar wahân ac yn ddiogel, mewn cynwysyddion storio y gellir eu cloi ac na ellir eu symud, â'r mynediad iddynt wedi'i reoli'n gaeth ac wedi'i gyfyngu i'r sawl sydd â hawl i weld y wybodaeth yn rhan o'u dyletswyddau.

14.1.3 Cadw

Wedi i benderfyniad recriwtio gael ei wneud, ni chedwir y wybodaeth a geir mewn datgeliad am yn hwy nag sy'n gwbl angenrheidiol. Bydd hyn yn gyffredinol am gyfnod o hyd at chwe mis er mwyn caniatáu amser i ystyried a datrys unrhyw anghydfod neu gŵynion. Os, dan amgylchiadau eithriadol, yr ystyrir bod angen cadw'r wybodaeth o'r datgeliad am yn hwy na chwe mis, mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn ymgynghori â'r DBS a bydd yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a hawliau dynol yr unigolyn cyn gwneud hynny. Trwy gydol y cyfnod hwn, bydd yr amodau uchod ynghylch storio diogel a rheoli mynediad mewn grym.

14.1.2 Gwaredu

Wedi i'r cyfnod cadw ddod i ben, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth a geir mewn datgeliad yn cael ei dinistrio mewn modd diogel. Tra bydd y wybodaeth a geir mewn datgeliad yn aros i gael ei dinistrio, ni fydd yn cael ei chadw mewn unrhyw gynhwysydd anniogel. Ni chaiff y wybodaeth a geir mewn datgeliad ei llungopïo ac ni fydd unrhyw ddelwedd arall o'r dogfennau yn cael ei chadw. Er gwaethaf yr uchod, mae'n bosibl y byddwn yn cadw cofnod o gynnwys y datgeliad, enw'r gwrthrych, y cyfeirnod unigryw a manylion y penderfyniad a wnaed o ran recriwtio.

14.2 – Gwybodaeth ynghylch honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod

14.1.1 Trin

Yn unol â gofynion GDPR, dim ond â'r rheini sydd â'r hawl i'w gweld yn sgil eu dyletswyddau y bydd y wybodaeth ynghylch honiad(au) a wnaed dan y polisi hwn yn cael ei rhannu. Mae hyn yn cynnwys y Llofnodwr Arweiniol a'r Adran Adnoddau Dynol neu'r Tîm Derbyn Myfyrwyr fel y bo'n briodol.

14.1.2 Defnydd

Ni fydd manylion honiad(au) a'r ymchwiliad iddo/iddynt yn cael eu cadw ar ffeil aelod o staff nac yng nghofnod unrhyw fyfyrwr, a byddant wastad yn cael eu cadw ar wahân ac yn ddiogel, mewn cynwysyddion storio y gellir eu cloi ac na ellir eu symud, â'r mynediad iddynt wedi'i reoli'n gaeth ac wedi'i gyfyngu i'r sawl sydd â hawl i weld y wybodaeth yn rhan o'u dyletswyddau. O safbwynt ymchwiliadau ynghylch staff, bydd y wybodaeth hon yn cael ei storio gan y Prif Swyddog Diogelu Staff

yn yr Adran AD. O safbwynt ymchwiliadau ynghylch myfyrwyr, bydd y wybodaeth yn cael ei storio gan y Prif Swyddog Diogelu Myfyrwyr yn yr Adran Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaedd.

14.1.3 Cadw

Ni chedwir gwybodaeth a gesglir yn rhan o ymchwiliad am yn hwy nag sy'n gwbl angenrheidiol. Ni fydd hyn yn gyffredinol yn hwy na hyd unrhyw rybudd neu gosb a bennir. Os, dan amgylchiadau eithriadol, yr ystyrir bod angen cadw'r wybodaeth am yn hwy na'r cyfnod a nodir yn y llythyr penderfyniad i'r aelod o staff neu fyfyrwr, bydd y Brifysgol yn ymgynghori â Rheolwr Rheoli Gwybodaeth y Brifysgol ac yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a hawliau dynol yr unigolyn cyn penderfynu cadw'r wybodaeth am yn hwy. Trwy gydol y cyfnod hwn, bydd yr amodau uchod ynghylch storio diogel a rheoli mynediad mewn grym.

14.2.4 Gwaredu

Wedi i'r cyfnod cadw ddod i ben, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r honiad/ymchwiliad yn cael ei dinistrio mewn modd diogel. Tra bydd y wybodaeth yn aros i gael ei dinistrio, ni fydd yn cael ei chadw mewn unrhyw gynhwysydd anniogel. Ni fydd y wybodaeth yn cael ei llungopïo ac ni fydd unrhyw ddelwedd arall o'r dogfennau yn cael ei chadw. Er gwaethaf yr uchod, mae'n bosibl y byddwn yn cadw cofnod o gynnwys y wybodaeth, enw'r gwrthrych, unrhyw gyfeirnod unigryw a manylion y penderfyniad a wnaed.

14.3 Dogfennau yn ymwneud â honiadau am gontractwyr neu ymwelwyr

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw gan y Swyddog Adrodd Dynodedig, a hynny ar wahân i gofnodion eraill. Bydd yr holl brosesau cysylltiedig a'r camau gweithredu dilynol hefyd yn cael eu dogfennu yn yr un ffeil. Bydd y drefn o ran cadw a gwaredu yn unol â 14.2.3 a 14.2.4 uchod.

ATODIAD 18 - Acronymau a ddefnyddir yn y Polisi

AD	Adnoddau Dynol
AD a DS	Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol
DBS	Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

ATODIAD 19 - DIFFINIADAU

At ddibenion y polisi hwn, mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys:

Adran 1

Diffinnir '**Plentyn**' fel unrhyw un dan 18 oed.

Mae '**Person ifanc**' yn cyfeirio at unrhyw un dan ddeunaw oed sydd wedi gadael addysg lawn-amser.

At ddibenion y polisi hwn, yr un yw ystyr 'plentyn/person ifanc/pobl ifanc'.

Diffinnir '**oedolyn**' fel unrhyw berson sydd dros 18 oed.

Mae '**myfyriwr**' yn cynnwys myfyrwr cartref (y DU), yr Undeb Ewropeaidd (UE), tramor neu ryngwladol sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw raglen astudio PA ac mae'n cynnwys unigolion sydd y tu hwnt i'r cwrpas ymwneud traddodiadol â gweithgareddau'r Brifysgol.

Oedolyn Agored i Niwed

Y diffiniad craidd o 'oedolyn agored i niwed' o'r Ymgynghoriad o 1997 'Who Decides?' a gyhoeddwyd gan Adran yr Arglwydd Ganghellor yw person:

'Sydd angen, neu a allai fod angen, gwasanaethau gofal cymunedol yn sgil anabledd, oedran neu afiechyd; ac nad yw'n gallu, neu a allai beidio â gallu, amddiffyn ei hun rhag niwed neu gamfanteisio sylweddol.'

Bydd y diffiniad a'r defnydd o 'oedolyn agored i niwed' wedi cael ei ddefnyddio mewn lluo o bolisiau a gweithdrefnau hŷn ym maes diogelu oedolion agored i niwed, ond dylid defnyddio yn ei le yn awr y diffiniad newydd o'r Ddeddf Gofal (2014) - gweler y diffiniad o 'oedolion sydd mewn perygl o niwed' isod i weld y diffiniad newydd.

Mae'r Brifysgol yn ystyried unrhyw berson fel un agored i niwed os oes arnynt angen gwarchodaeth neu fewnbwn ychwanegol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial i'r eithaf. Gall pa mor agored i niwed ydyw unigolyn amrywio gan ddbynnu ar y gweithgaredd sy'n cael ei gynnal a'r bobl sy'n bresennol. Mae rhai o'r grwpiau y mae'r Brifysgol yn barnu eu bod yn agored i niwed yn cynnwys, ymhlith eraill:

- Pobl sy'n gadael gofal
- Gofalwyr ifanc
- Pobl anabl a staff anabl sydd ag anghenion cymorth penodol ac nad ydynt, o ganlyniad i'r anghenion hynny, yn gallu eu hamddiffyn eu hunain rhag y risg o gamdriniaeth neu niwed
- Unigolion sy'n cael eu cam-drin, neu sydd wedi cael eu cam-drin yn y gorffennol
- Unigolion sy'n byw mewn llety dros dro

Oedolion sydd mewn perygl o niwed

Rydym wedi symud oddi wrth y term 'oedolion agored i niwed' tuag at 'oedolion sydd mewn perygl o niwed', a dalfyrir fel arfer mewn polisiau a gweithdrefnau i 'oedolion sydd mewn perygl'. Mae'n bosibl hefyd y cyfeirir at 'oedolyn ag anghenion gofal a chymorth'.

Adran 2

Gweithgaredd a Reoleiddir

Mae'r diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud ag oedolion yn cyfeirio at oedolion yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ar yr adeg benodol honno.

Ceir chwe chategori o bobl sy'n rhan o'r diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir (a bydd unrhyw un sy'n rheoli neu'n goruchwyllo'r bobl hynny o ddydd i ddydd yn rhan o'r diffiniad hefyd). Amlinellir y categorïau hyn yn fras isod.

1) Darparu gofal iechyd

Unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n darparu gofal iechyd i oedolyn, neu unrhyw un sy'n darparu gofal iechyd i oedolyn dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

2) Darparu gofal unigol - unrhyw un sy'n:

- darparu cymorth corfforol i fwyta neu yfed, mynd i'r tŷ bach, ymolchi neu ymdrochi, gwisgo, gofalu am y geg neu ofalu am y croen, gwallt neu ewinedd yn sgil oedran, afiechyd neu anabledd oedolyn;
- annog ac yna'n goruchwyllo oedolyn nad ydyw, yn sgil ei oedran, afiechyd neu anabledd, yn gallu gwneud y penderfyniad i fwyta neu yfed, mynd i'r tŷ bach, ymolchi neu ymdrochi, gwisgo, gofalu am y geg neu ofalu am y croen, gwallt neu ewinedd heb yr anogaeth neu'r oruchwyliaeth honno;
- hyfforddi, cyfarwyddo neu'n cynnig cyngor neu arweiniad sy'n ymwneud â bwyta neu yfed, mynd i'r tŷ bach, ymolchi neu ymdrochi, gwisgo, gofalu am y geg neu ofalu am y croen, gwallt neu ewinedd i oedolion sydd angen hynny yn sgil oedran, afiechyd neu anabledd.

3) Darparu gwaith cymdeithasol - y ddarpariaeth o waith cymdeithasol gan weithiwr gofal cymdeithasol sy'n ofynnol mewn cyswllt ag unrhyw wasanaethau gofal iechyd neu gymdeithasol i oedolyn sy'n gleient neu'n gleient posibl.

4) Cynorthwyo ag arian parod, biliau ac/neu siopa - darparu cymorth i oedolyn yn sgil ei oedran, afiechyd neu anabledd, os yw hynny'n cynnwys rheoli arian parod yr unigolyn, talu ei filiau neu siopa ar ei ran.

5) Cynorthwyo unigolyn i ymdrin â'i faterion ei hun - unrhyw un sy'n darparu amrywiol fathau o gymorth wrth gynnal materion oedolyn ei hun, er enghraifft trwy gyfrwng atwrneiaeth barhaus. Gweler Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, i weld y categorïau pellach sy'n cael eu cwmpasu yma.

6) Cludo - unigolyn sy'n cludo oedolyn, yn sgil ei oed, afiechyd neu anabledd, naill ai i neu o'i fan preswyl a man lle mae wedi cael, neu y bydd yn cael, gofal iechyd, gofal unigol neu ofal cymdeithasol; neu rhwng mannau lle mae wedi cael neu y bydd yn cael gofal iechyd, gofal unigol neu ofal cymdeithasol. Nid yw hyn yn cynnwys teulu a ffrindiau na gyrywyr taci.

Adran 3

Diogelu

Mae diogelu'n derm a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig i gyfeirio at fesurau i amddiffyn iechyd, lles a hawliau dynol unigolion, sy'n galluogi i bobl - a phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed yn enwedig - i fyw'n rhydd rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod.

Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb.

Mae diogelu'n berthnasol os yw plentyn neu 'oedolyn sydd mewn perygl' yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu mewn perygl o hynny. Gallai pryder am ddiogelu gynnwys aelod o staff, myfyriwr neu un o brosesau PA yn peri risg i blant neu oedolion o'r fath.

Beth yw'r Ddyletswydd Prevent?

Yr agenda wrth-radicalaiddio sydd wedi'i chynnwys yn y Ddeddf Gwrthderfysgaeth.

Adran 4

Beth yw Cam-drin?

Cam-drin yw camdriniaeth gan unrhyw berson neu bersonau eraill sy'n tramgwyddo hawliau dynol a sifil person. Gall y gamdriniaeth amrywio o drin rhywun ag amarch mewn modd sy'n cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd y person hwnnw, i achosi gwir ddiodefaint corfforol neu feddyliol.

Mathau o gam-drin

- Cam-drin corfforol
- Trais neu gam-drin domestig
- Cam-drin rhywiol (gan gynnwys defnyddio ffotograffiaeth/delweddau a'u hatgynhyrchu)
- Cam-drin seicolegol neu emosiynol
- Cam-drin ariannol neu faterol
- Caethwasiaeth fodern
- Cam-drin gwahaniaethol
- Cam-drin sefydliadol
- Esgeulustod neu fetu â gweithredu
- Hunanesgeuluso

Diffiniad o Esgeuluso

- Peidio â rhoi digon o ofal neu sylw i bobl neu bethau yr ydych yn gyfrifol amdanynt.

Esgeulustod a Methu â Gweithredu

Yn cynnwys anwybyddu anghenion gofal meddygol, emosiynol neu gorfforol; methu â darparu mynediad i iechyd neu ofal a chymorth priodol; neu wadu anghenion bywyd, megis meddyginiaeth, maeth a gwresogi.

DBS (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)

Mae'r corff statudol hwn yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant. Cafodd ei greu yn 2012 yn sgil uno'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Atodiad 20 - Safonau'r Iaith Gymraeg

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth a phrofiad o ansawdd uchel i staff, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd.

Yn unol â'r Safonau Iaith a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018 mae gan unigolion yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg i:-

(a) wneud cwyn

(b) ymateb i gŵyn neu honiad

Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod pan na ellir cynnal y cyfarfod yn uniaith Gymraeg.

Os amheuir bod Prifysgol Aberystwyth wedi torri amodau ei Safonau Iaith, dylid cyflwyno'r amheuron hynny trwy gyfrwng y ffurflen sydd ar gael ar: <https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/complaints-procedure/>.

